# Dangosyddion Perfformiad Allweddol
# Trafnidiaeth Cymru

*Chwarter 03 2025/26*

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyflwyniad

Dyhead Trafnidiaeth Cymru yw bod y ffordd ffafriol i bobl deithio yng Nghymru. Rhaid i ni adeiladu rhwydwaith teithio cynaliadwy ar ran y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn agored ac yn dryloyw yn ein dull gweithredu. Mae cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gam pwysig tuag at gyflawni hyn. Bydd yn ein helpu i sicrhau bod cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid yn ymddiried ynom.

Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u rhannu'n bum maes allweddol (diogelwch, cwsmeriaid, pobl, cyllid a chynaliadwyedd) sy'n adlewyrchu cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru.

Mae dangos cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn yn flaenoriaeth i ni. Mae pob mesur yn dangos pa mor agos ydym ni i gyflawni'r cylch gwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Gallwch ddarllen y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun busnes a'n strategaeth gorfforaethol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn datblygu wrth i ni gyflawni ein cylch gwaith.

## Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Fel corff a enwir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi alinio ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) â'r saith nod llesiant.

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ddeddf yn darparu ar gyfer gwell penderfyniadau trwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn:

- ystyried y tymor hir
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- mabwysiadu dull integredig
- mabwysiadu dull cydweithredol ac ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth

1 **Cymru Lewyrchus**

2 **Cymru Gydnerth**

3 **Cymru Iachach**

4 **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**

5 **Cymru o Gymunedau Cydlynus**

6 **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**

7 **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**



| | | Nodau Llesia | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| **Diogelwch** | Diogelwch Cydweithwyr | | ● | ● | | | | |
| | Digwyddiadau diogelwch fesul 100,000 o deithiau gan deithwyr | | ● | ● | | | | |
| **Cwsmeriaid** | Bodlonrwydd Cwsmeriaid | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion fesul 100,000 o deithiau rheilffordd | ● | | | | ● | | |
| | Teithiau gan deithwyr rheilffyrdd | ● | ● | | | ● | | |
| | Llinellau Craidd y Cymoedd Ar Amser (hyd at 3 munud) | ● | | | | ● | | |
| | Cymru a’r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud) | ● | | | | ● | | |
| | Cansladau ar y Diwrnod | ● | | | | ● | | |
| | Cansladau ymlaen llaw | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion TrawsCymru fesul 100,000 o deithiau | ● | | | | ● | | |
| | Teithiau gan deithwyr TrawsCymru | ● | ● | | | ● | | |
| | Cansladau TrawsCymru | ● | | | | ● | | |
| | Cwynion Allanol Cyfrwng Cymraeg fesul 100,000 o deithiau | | | | | | ● | |
| **Pobl** | Ymgeiswyr Benywaidd sy’n Sicrhau Rolau gyda TrC | | | | ● | ● | | |
| | Trosiant Cydweithwyr | ● | | | ● | | | |
| **Cyllid** | | | | | | | | |
| | Gwariant Gweithredu | ● | | | | | | |
| | Gwariant Cyfalaf | ● | | | | | | |
| | Refeniw o Docynnau a Werthwyd | ● | | | | | | |
| **Cynaliadwyedd** | Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilomedr Teithwyr | | ● | ● | ● | | | ● |

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Diogelwch

## Diogelwch Cydweithwyr

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 97.4% | 97.8% |

**Disgrifiad o'r DPA**

Canran gyffredinol staff Rheilffyrdd TrC a weithiodd yn ddiogel heb ddod i gysylltiad â gweithredoedd neu amodau anniogel, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, damweiniau neu ddigwyddiadau fu bron â digwydd.

### Trosolwg

Mae cydweithwyr heb Ddigwyddiad Diogelwch yn Ch3 2025/26 yn parhau i wella o'i gymharu â'r un chwarter yn 2024/25. Rydym yn parhau i adolygu digwyddiadau i ganfod tueddiadau a'u lliniaru yn unol â hynny.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Mae diogelwch ein cydweithwyr yn eithriadol o bwysig i ni a chynllunnir ar ei gyfer ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn 2025/26, rydym yn datblygu ein dull gweithredu ar gyfer risg diogelwch drwy nodi achosion sylfaenol a ffactorau cyffredin.

## Digwyddiadau diogelwch fesul 100,000 o deithiau gan deithwyr

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 1.5 | 1.1 |

**Disgrifiad o'r DPA**

Nifer y digwyddiadau diogelwch oedd yn ymwneud ag unrhyw gwsmer, teithiwr neu aelod o'r cyhoedd fesul 100,000 o deithiau a wnaed gan deithwyr.

### Trosolwg

Yn Ch3 2025/26, roedd Digwyddiadau Diogelwch fesul 100,000 o Deithiau gan Deithwyr wedi lleihau o'i gymharu â'r un chwarter yn 2024/25. Mae'r math o ddigwyddiadau yn dal yn unol â chwarteri blaenorol, gyda'r digwyddiadau yn digwydd yn bennaf mewn gorsafoedd.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Mae diogelwch a llesiant ein cwsmeriaid yn hollbwysig. Rydym wedi lansio ymgyrch ddiogelwch i helpu i leihau'r digwyddiadau yn ein gorsafoedd, cyfnewidfeydd bysiau ac ar ein rhwydwaith trafnidiaeth. Nod yr ymgyrch yw annog pobl i feddwl cyn gweithredu, bod yn ystyriol o'r hyn sydd o'n cwmpas, ac osgoi rhuthro.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmeriaid

## Boddhad Cwsmeriaid

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 85.1% | 86.5% |

**Disgrifiad o'r DPA**

Rydym yn mesur boddhad cwsmeriaid â Wavelength, adnodd monitro a mesur gwasanaeth i gwsmeriaid y diwydiant rheilffyrdd. Mae'n mesur pa mor fodlon yw ein cwsmeriaid â'u taith gyffredinol.

### Trosolwg

Yn Ch3 cynyddodd boddhad ein cwsmeriaid dros 1 pwynt canran o'i gymharu â Ch3 2024/25. Ailgynlluniwyd yr arolwg profiad cwsmeriaid eleni ac o'r chwarter hwn ymlaen rydym yn derbyn mewnwelediadau mwy cynhwysfawr i brofiad cwsmeriaid. Mae'r dull wedi'i ddiweddaru, ynghyd â chyfradd ymateb uwch, wedi rhoi golwg fwy cynrychioliadol o'n sylfaen cwsmeriaid, gan gryfhau dibynadwyedd y data.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Rydym yn cryfhau ein gallu i gael mewnwelediad cwsmeriaid drwy gynyddu cyrhaeddiad ein harolwg boddhad ac ail-lansio ein panel cwsmeriaid i ddarparu adborth mwy cyson. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i feincnodi perfformiad drwy'r Arolwg Profiad Cwsmeriaid Rheilffyrdd, monitro ac ymateb i adborth Trustpilot, ac olrhain ein safle ym Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid y DU.

## Cwynion fesul 100,000 o deithiau rheilffordd

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 117 | 94 |

**Disgrifiad o'r DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer posibl ynghylch Rheilffyrdd TrC fel cyfran o 100,000 o deithiau gan deithwyr ar drenau.

### Trosolwg

Ein cyfartaledd Ch3 ar gyfer 2025/26 yw 94 o gwynion fesul 100,000 o deithiau trên. Mae'r cwynion fesul 100,000 o deithiau wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â Ch3 yng nghyfnod 24/25, sef 117 o gwynion fesul 100,000 o deithiau.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Rydym yn adolygu'n materion allweddol a amlygwyd gan gwynion cwsmeriaid yn barhaus, ac yn cymryd camau i wella profiadau cwsmeriaid yn dilyn cyswllt â chwsmeriaid. Rydym yn cydweithio'n well â rhannau eraill o'r busnes fel perfformiad a grwpiau rhwydwaith T lleol i rannu adborth cwsmeriaid i helpu i sbarduno gwelliannau.

# Cwsmeriaid

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Teithiau gan Deithwyr Rheilffordd

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
| --- | --- |
| 7.4M | 8.6M |

**Disgrifiad o'r DPA**

Cyfanswm nifer y teithwyr rheilffordd a brynodd docynnau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau.

**Trosolwg**

Cynyddodd teithiau gan deithwyr rheilffyrdd 15.5 % yn Ch3 2025/26 o'i gymharu â Ch3 2024/25. Cafodd y twf mewn teithiau ei sbarduno'n bennaf gan deithio ar Brif Reilffordd De Cymru a llwybrau Llinell y Mers.

**Edrych Tua'r Dyfodol**

Yn 2025/26, ein nod yw denu cwsmeriaid newydd a pharhau i gynyddu teithiau ar drenau. Byddwn yn cynyddu'r galw drwy symleiddio prisiau tocynnau a gwella gwerth.

## Llinellau Craidd y Cymoedd ar amser (hyd at 3 munud)

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
| --- | --- |
| 83.2% | 90.7% |

**Disgrifiad o'r DPA**

Canran y gwasanaethau trên sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollwyd. Mae pwysoliad yn cael ei roi i orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid, felly mae oedi mewn lleoliadau lle mae mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yng ngorsaf Caerdydd Heol y Frenhines yn cael mwy o effaith ar y ganran o'i gymharu â Threherbert.

**Trosolwg**

Yn Ch3 2025/26, cynyddodd prydlondeb Llinellau Craidd y Cymoedd ymhellach, gan gynrychioli ein cyfnod perfformiad gorau ers i ni gynyddu'r amserlen yn sylweddol ym mis Mehefin 2024.

**Edrych Tua'r Dyfodol**

Cyn bo hir byddwn yn cyflwyno mwy o drenau newydd i Linellau Craidd y Cymoedd (gan gynnwys ein trenau tram Dosbarth 398 newydd) ac yn gwneud rhagor o welliannau i'n seilwaith. Byddwn yn parhau i weithio gyda Network Rail a Seilwaith Amey Cymru i wella prydlondeb a lleihau tarfiadau.

# Cwsmeriaid

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Cymru a'r Gororau ar amser (hyd at 3 munud)

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 69.1% | 71.8% |

### Disgrifiad o'r DPA

Canran y gwasanaethau trên sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws gwasanaethau Cymru a'r Gororau. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollwyd. Mae pwysoliad yn cael ei roi i orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid, felly mae oedi mewn lleoliadau lle mae mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yng ngorsaf Caerdydd Canolog yn cael mwy o effaith ar y canran o gymharu â Phont-y-pŵl a New Inn.

### Trosolwg

Yn Ch3, gostyngodd prydlondeb ar lwybr Cymru a'r Gororau o'i gymharu â Ch1 a Ch2 wrth i dywydd hydrefol a stormydd eithafol effeithio arnom. Serch hynny, cafodd hyn ei wella'n sylweddol o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2024.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Cyn bo hir byddwn yn cyflwyno rhagor o drenau newydd ar draws mwy o lwybrau a fydd yn lleihau amseroedd teithio ymhellach ac yn gwella prydlondeb ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i wella argaeledd a dibynadwyedd trenau. Byddwn yn gweithio gyda Network Rail i wella dibynadwyedd amserlenni, lleihau nifer y bobl sy'n tresmasu ar y rhwydwaith rheilffyrdd, a lliniaru effaith tarfiadau eraill.

## Cansladau ar-y-diwrnod

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 7.4% | 4.0% |

### Disgrifiad o'r DPA

Canran y gwasanaethau trên a gafodd eu canslo ar y diwrnod ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm y gwasanaethau a nodwyd yn y cynllun trên dyddiol.

### Trosolwg

Rydym wedi gwella cansladau yn sylweddol o'i gymharu â Ch3 2024/25. Hwyluswyd hyn drwy wella argaeledd trenau ar lwybrau a oedd yn perfformio'n wael o'r blaen. Rydym hefyd wedi gweithredu cynlluniau wrth gefn i wella'r broses o adfer gwasanaethau'n gyflym pan fydd pethau'n mynd o'i le.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Dylai achosion o gansladau ar y diwrnod a achosir gan brinder trenau leihau wrth i fwy o drenau newydd gael eu cyflwyno. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar strategaethau a fydd yn lleihau'r tarfu ar deithwyr os bydd tywydd eithafol, problemau cynnal a chadw trenau, a phroblemau seilwaith.

# Cwsmeriaid

## Cansladau ymlaen llaw

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 0.1% | 0.2% |

**Disgrifiad o'r DPA**

Nifer y gwasanaethau trên a gafodd eu canslo cyn 10pm y diwrnod cyn rhoi'r gwasanaeth ar waith fel cyfran o gyfanswm y gwasanaethau a nodwyd y cynllun trên dyddiol.

### Trosolwg

Ychydig iawn o achosion o ganslo ymlaen llaw oedd yn ystod y chwarter. Roedd hyn yn adlewyrchu ein gwaith cynllunio adnoddau gofalus, gan sicrhau bod digon o yrwyr trenau, rheolwyr trenau a chydweithwyr eraill sydd â chyfrifoldebau diogelwch hollbwysig ar gael i weithredu'r amserlen. Ar gyfer ein gyrwyr trenau a'n rheolwyr trenau, mae dydd Sul bellach yn rhan o'u hwythnos waith, gan arwain at well gwasanaeth ar ddydd Sul.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Byddwn yn cynnal nifer y Gyrwyr Trenau, Rheolwyr Trenau a chydweithwyr eraill â chyfrifoldebau diogelwch hollbwysig er mwyn gwella amserlenni yn y dyfodol, ac i hwyluso hyfforddiant i gydweithwyr ar gyfer ein trenau newydd.

## Cwynion TrawsCymru fesul pob 100,000 o deithiau

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 21 | 15 |

**Disgrifiad o'r DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer, neu gwsmer posibl, ynghylch teithiau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru fel cyfran o 100,000 o deithiau gan deithwyr TrawsCymru.

### Trosolwg

Mae cwynion fesul 100,000 o deithiau yn parhau i fod ar lefel gyson isel drwy gydol y chwarter, ac mae'n dilyn y duedd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae ein cyfathrebu â chwsmeriaid am oediadau a tharfiadau wedi gwella'n sylweddol, ac mae cwsmeriaid nawr elwa o hysbysiadau teithio personol. Rydym hefyd yn gweithio'n llawer agosach gyda gweithredwyr i reoli lefelau gwasanaeth lle mae gwaith ffordd yn cael effaith.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Yng ngwanwyn 2026, byddwn yn lansio 30 o gerbydau newydd ar draws rhwydwaith Traws Cymru, a fydd yn gwella profiad y cwsmer gyda mwy o wasanaethau'n cael cyhoeddiadau sain a gweledol am y stop nesaf. Byddwn hefyd yn gweithredu ein hail gwrs hyfforddi gyrwyr a fydd yn cael ei gyflwyno ar draws y rhwydwaith, i roi'r sgiliau i'r gyrwyr a fydd yn gwella profiad y cwsmer ymhellach. Mae ein system adborth cwsmeriaid fyw newydd wedi cael ei lansio a bydd hyn yn ein galluogi i gael adborth byw gan gwsmeriaid am deithiau penodol a byddwn yn gallu targedu meysydd allweddol i'w gwella ar sail yr adborth hwn.

# Cwsmeriaid

## Teithiau gan Deithwyr TrawsCymru

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 0.3M | 0.4M |

### Disgrifiad o'r DPA

Cyfanswm nifer y teithwyr a gafodd eu cludo ar lwybrau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau T4 a T5 o 31 Awst 2025 ymlaen.

### Trosolwg

Mae teithiau gan deithwyr TrawsCymru yn parhau i gynyddu. Mae ein model gweithredu cyson bellach wedi'i wreiddio, ac mae Ch3 wedi gweld cynnydd o 12%. Bydd y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd teithiau a wnaed ar wasanaethau T4 a T5 a gyflwynwyd ar 31 Awst 2025. Integreiddio'r T4 a'r T5 i rwydwaith TrawsCymru TrC ym mis Medi gydag amserlenni a phrisiau diwygiedig, ac mae arwyddion cynnar yn dangos ein bod yn dechrau gweld mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau hyn.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Byddwn yn gwella profiad cwsmeriaid yn y dyfodol drwy gyflwyno bysiau newydd a chynnig hyfforddiant i fwy o yrwyr ar sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid. Byddwn yn defnyddio ein system adborth cwsmeriaid newydd i nodi lle gallwn wella.

## Cansladau TrawsCymru

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 2.9% | 0.9% |

### Disgrifiad o'r DPA

Canran teithiau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru a gafodd eu canslo ar y diwrnod.

### Trosolwg

Roedd nifer yr achosion o ganslo teithiau TrawsCymru yn gyson isel yn y chwarter, fe wnaethom weithredu 99.1% o bob taith wedi'i threfnu. Y prif resymau dros ganslo oedd tagfeydd ar y ffyrdd, argaeledd gyrwyr, a methiant mecanyddol.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fonitro tueddiadau a'r prif bethau sy'n achosi i ni orfod canslo er mwyn ein helpu i darfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar unrhyw achos o ganslo sydd o fewn ein rheolaeth a chynnal safonau ar draws ein rhwydwaith.

# Cwsmeriaid

## Cwynion Allanol Cyfrwng Cymraeg fesul 100,000 o deithiau

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 0.03 | 0.02 |

### Disgrifiad o'r DPA

Cwynion newydd fesul 100,000 o deithiau gan deithwyr (TrawsCymru a Rheilffyrdd) i Gomisiynydd y Gymraeg pan nad yw'r achwynydd wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg gan TrC, neu os yw'n anfodlon â sut mae TrC yn penderfynu ar fater sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

### Trosolwg

Roedd Cwynion Allanol am y Gymraeg fesul 100,000 o deithiau wedi gostwng o'i gymharu â Ch3 2024/25. Rydym wedi cynnal rhaglen waith i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws ein rhwydwaith.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i fonitro ein darpariaeth Gymraeg i gwsmeriaid a staff. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu am welliannau i seilwaith a'n gwaith gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu dilyn yn drylwyr a bod cyfleoedd diwylliannol Cymreig yn cael eu hyrwyddo.

# Pobl

## Ymgeiswyr Benywaidd sy’n Sicrhau Rolau gyda TrC

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
| --- | --- |
| 35.6% | 40.4% |

**Disgrifiad o'r DPA**

Canran yr ymgeiswyr benywaidd sy'n llwyddo i gael swydd gyda TrC. Rydym yn datblygu tîm amrywiol sy’n adlewyrchu’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Trosolwg

Cynyddodd canran yr ymgeiswyr benywaidd sy’n llwyddo i gael rôl TrC o’i gymharu â’r un chwarter y llynedd. Mae’r gwelliant hwn yn dyst i’n gwaith yn hyrwyddo cyfleoedd i fenywod ac yn cynnal ymgyrchoedd ar gyfer pobl sydd wedi bod allan o’r gweithle ers sawl blwyddyn.

### Edrych Tua’r Dyfodol

Byddwn yn parhau i gynnal rhaglenni i gefnogi grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys pobl ifanc a menywod, drwy ddarparu llwybrau gyrfa ystyrlon, profiad gwaith gwerthfawr, a sgiliau cyflogadwyedd.

## Trosiant Cydweithwyr

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
| --- | --- |
| 1.5% | 1.9% |

**Disgrifiad o’r DPA**

Canran cydweithwyr TrC sy’n gadael y sefydliad am unrhyw reswm. Rydym yn monitro hyn ar y cyd â pham mae cydweithwyr TrC yn gadael y sefydliad i ddyfeisio mentrau i leihau cyfraddau gadael a chynyddu lefelau cadw gweithwyr.

### Trosolwg

Roedd trosiant cydweithwyr yn parhau yn isel ar 1.9%, sy'n gyson â chyfnodau blaenorol ac yn arwydd o weithlu sefydlog. Roedd y rhai a adawodd yn bennaf oherwydd ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau gwirfoddol.

### Edrych Tua’r Dyfodol

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein gweithlu Doniau Cynnar i greu cyflenwad cryf o arweinwyr y dyfodol, gan flaenoriaethu amrywiaeth a chynhwysiant sy'n bwysig i'n llwyddiant. Byddwn yn parhau i gynnig rhaglenni hyfforddi ac arwain i sicrhau bod ein cydweithwyr wedi ymgysylltu, ac yn cynnig cyfleoedd datblygu gyrfa.

# Cyllid

## Gwariant Gweithredu

| Gwariant Blwyddyn Ariannol 2024/25 | Rhagolwg Blwyddyn Ariannol 2025/26 | Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2025/26 |
|---|---|---|
| £376.6M | £433.1M | £431.6M |

### Disgrifiad o'r DPA

Y rhagolwg blwyddyn llawn diweddaraf ar gyfer gwariant gweithredol yn erbyn y gwariant gweithredol blwyddyn lawn y cyllidebwyd ar ei gyfer.

### Trosolwg

Mae alldro'r flwyddyn lawn yn cyd-fynd â Chyllideb TrC yn y Cynllun Busnes a'r llythyr cyllido diwygiedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn cynnwys her rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o bennu cyllideb.

## Gwariant Cyfalaf

| Gwariant Blwyddyn Ariannol 2024/25 | Rhagolwg Blwyddyn Ariannol 2025/26 | Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2025/26 |
|---|---|---|
| £358.0M | £295.6M | £299.9M |

### Disgrifiad o'r DPA

Y rhagolwg blwyddyn llawn diweddaraf ar gyfer gwariant cyfalaf yn erbyn y gwariant gweithredol blwyddyn lawn y cyllidebwyd ar ei gyfer.

### Trosolwg

Mae alldro'r flwyddyn lawn yn cyd-fynd â Chyllideb TrC yn y Cynllun Busnes ynghyd ag addasiadau cyllido dilynol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, ac mae pob un wedi'i adlewyrchu yn y llythyr cyllido terfynol. Bydd y rhan fwyaf o wariant 2025/26 ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd a threnau newydd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn cynnwys her rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o bennu cyllideb.

# Cyllid

## Gwerthiant Tocynnau

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 | Disgrifiad o'r DPA |
|---|---|---|
| £41.6M | £46.3M | Y refeniw a enillwyd o werthu tocynnau trên. Yn gyffredinol, gelwir hwn yn 'Refeniw Teithwyr' (er bod 'Incwm Blwch Tocynnau' yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ar draws y diwydiant). |

### Trosolwg

Cynyddodd y refeniw o werthiant tocynnau 11.4% yn Ch3 2025/26, o'i gymharu â Ch3 2024/25. Roedd hyn yn bennaf oherwydd twf yn nifer y teithiau a wnaed ar rwydwaith TrC.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Yn 2025/26, bydd ehangu prisiau sy'n seiliedig ar alw ar draws ein rhwydwaith a thocynnau talu wrth fynd digyswllt ar draws y rhanbarthau Metro yn allweddol i gynyddu refeniw, a bydd cwsmeriaid hefyd yn elwa o drawsnewid y rhwydwaith yn barhaus. Byddwn yn ail-fuddsoddi'r holl gynnydd mewn refeniw er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigiwn.

# Cynaliadwyedd

## Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilometr Teithwyr

| Ch3 2024/25 | Ch3 2025/26 |
|---|---|
| 75.8 | 74.2 |

### Disgrifiad o'r DPA

Cyfanswm yr allyriadau carbon deuocsid Cwmpas 1 (mewn gramau) a gynhyrchwyd gan ein gwasanaethau rheilffordd am bob cilomedr teithwyr a deithiwyd. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o'r tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio gan ein trenau. Mae'r fethodoleg hon yn cyd-fynd â meini prawf adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon.

### Trosolwg

Yn Ch3 2025/26, gostyngodd Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilometr Teithwyr o'i gymharu â Ch3 2024/25, o ganlyniad i'n rhaglen drawsnewid wrth i drenau newydd ymuno â'r gwasanaeth a mwy o ddefnydd o'n gwasanaethau.

### Edrych Tua'r Dyfodol

Ein nod yw cyhoeddi Cynllun Rheoli Carbon a Strategaeth Ynni y byddwn yn eu defnyddio i reoli ein gweithgareddau allyrru carbon a chynyddu effeithlonrwydd ynni. Yn 2026, rydym yn disgwyl gweld ein hallyriadau carbon o ddisel yn gostwng wrth i'n trenau hybrid a'n trenau-tram trydan cyntaf gael eu cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd.